Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlvi. CHWEFROR, 1946. Rhif 2.

Y Garreg Wen.

Gan Mrs. A. Jones Rees, Llanbedr.

Yr oeddwn yn lled ieuanc pan aeth fy mam a mi am ddiwrnod i lan y môr am y tro cyntaf. Mawr oedd fy syndod wrth weld y môr mawr aflonydd, a'i donnau diorffwys yn rholio at y lan ac yn torri'n ewyn gwyn ar y traeth. Ni fedrwn ddirnad o ble y deuai'r tonnau o hyd ac o hyd. Perthyn llawer o ddirgelwch i ddeddfau Natur hyd heddiw na eill dysgedigion eu hesbonio, heb sôn am feddwl bach anaeddfed y plentyn.

Treiodd fy mam fy nghael i'r dŵr i olchi fy nhraed, ond yr oedd gormod o ofn y tonnau arnaf, a'r esgus a roddais dros beidio oedd fod gormod o lif yn y môr y diwrnod hwnnw. Yn cerdded yn hamddenol ar y traeth, gwelodd fy mam garreg wen, lefn yn gorwedd ymhlith y cerrig gleision. Yr oedd mor wyn fel y tynnodd sylw ac edmygedd fy mam. Cododd hi i fyny, gosododd hi yn ei basged, ac fe'i dygodd adref, a gosododd hi yn ymyl y llwyn Hen-ŵr ger drws y tŷ. Meddyliai y byd ohono. Bu'r garreg ger y drws fel rhyw wyliedydd purwyn flwyddyn ar ôl blwyddyn. Byddai fy mam yn ei golchi'n ofalus yn awr ac yn y man, er mwyn diogelu ei gwynder. Gofalai ei thrwsio erbyn y dydd y buaswn i'n mynd adref am dro i'r hen fwthyn clyd. Yn nhreigl y blynyddoedd sylwn nad oedd y garreg cyn wynned â chynt, arwydd sicr fod yr hen wraig yn mynd yn hen a methedig. Un bore, gyda thorriad y wawr, ehedodd ei hysbryd yn ôl at yr Hwn a'i rhoes, ac ymhen tridiau gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni i orffwys o dan yr ywen ym mynwent y pentref tawel.

Bu'r bwthyn ynghau am dipyn, ond safai'r garreg wen yn ymyl y drws o hyd, fel cofadail i'r hen wraig annwyl.

Cyn hir, daeth teulu arall i fyw i'r bwthyn, teulu a berthynai i oes ddiweddarach, ac wele gyfnewidiad. Ar ymweliad â'r pentref ymhen tipyn, gwelwn fod y garreg wen wedi ei thaflu o'r golwg.

O'i cholli, aeth brâth trwy fy nghalon. Sentiment o bosibl. Gwyddwn na ddeuai fy mam byth heibio i weld lle'r trysor yn wag, er hynny, nid oedd y frâth yn llai. Collodd y bwthyn ei ddiddordeb i mi o'r dydd hwnnw.

(Profiad ffrind i mi a ddadlennir yw y llinellau hyn).

* * *

Hanes y teulu dynol erioed ydyw un oes yn mynd, ac oes arall yn dod. Yr hen bethau yn darfod gyda'u hoes, pethau newydd yn dod gydag oes newydd. Oni fuasai'n ddiddorol i ni sydd dros yr hanner cant wybod beth fydd wrth ochr ein drysau ni ymhen rhyw drigain mlynedd. Digon tebyg y bydd ein dull ni o fyw yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn erbyn hynny. Gwelwn yn barod arferion a phleserau dieithr yn dod yn boblogaidd ymhlith y bobl ieuainc, a'r hen arferion yn colli tir. Tybed ai gardd o flodau a fydd ger y drws, ynte drain a drysi, neu hangar i gadw awyren fechan i fynd â'r teulu am hedfa hanner y ffordd i ben pellaf y byd, uwchlaw'r cymylau, ac yn ôl yr un dydd. Dywed rhai nad yw'r dydd ymhell pryd y gwelir yr awyren yn cymryd lle'r car modur, er cymaint ei fri heddiw. Nid yw'r meddwl dynol yn aros yn ei unfan, symud yn ei flaen o hyd, gan ddyfeisio pethau newydd yn barhaus. Beth, tybed, fydd tynged y Sinema, prif atyniad yr ieuainc heddiw, erbyn hynny? A ydyw'n bosibl y daw rhyw atyniad a fedr ei rhoi hi yn ail-orau fel cyrchfan pleser. Tebyg y bydd Television ar y Diwifr wedi ei berffeithio erbyn hynny. Beth fydd sefyllfa'r bom atomig felltigedig y clywir cymaint amdani y dyddiau yma? Boed iddi farw yn ei mebyd.

Yn wyneb y fath gyfnewidiadau, beth, tybed, fydd cyflwr crefydd ac eglwysi Cymru? Ar hyn o bryd, ychydig yw'r diddordeb a gymer y bobl ieuainc, ond hwyrach y try'r fantol eto pan gyrhaeddo'r difaterwch ei eithafbwynt. Dyna hanes crefydd erioed.

Mewn papur Cymreig y dydd o'r blaen, yr oedd hanes am eglwys o'r enw Pater Noster ar fynydd yr Olewydd, uwchben Gethsemane. Ar fur yr eglwys y mae tabled ac arni yn ysgrifenedig Weddi'r Arglwydd mewn gwahanol ieithoedd, yn eu plith yr iaith Gymraeg. Pwy a'i hysgrifennodd, tybed? Hwyrach i ryw Gymro sylweddoli gwerth ei iaith, yn ei alltudiaeth yno yn nyddiau'r Rhyfel, ac iddo ysgrifennu'r Weddi'n Gymraeg fel math o gyfathrach rhyngddo â gwlad ei dadau.

Anfonir cenhadon o'r wlad hon i wledydd tramor i efengyleiddio'r brodorion. Yn ôl pob hanes, y mae'r Moslem yn fwy selog gyda'i grefydd na ni sydd wedi ein hefengyleiddio Y mae ei grefydd iddo ef yn sylweddol a phwysig.

Bydd y cwestiwn yn ei gynnig ei hun i ni weithiau, "Pa un gwell yng ngolwg Duw ydyw'r dyn a gafodd y manteision addysg gorau,

ond nad yw'n byw'n deilwng o'i freiniau, ynte'r dyn na chafodd lawer o fanteision, ond a geisia fyw'n deilwng o'i urddas fel dyn?" Barned pob un drosto'i hun. Yn ôl fy marn i, nid yw dyn yn deilwng o'r enw, oni cheisia wneud ei orau yn ôl y goleuni y'i bendithiwyd ag ef.

Ychydig o hen bobl yn adeg fy ieuenctid a gafodd awr o ysgol erioed ar wahan i ysgol profiad. Pobl syml, diymhongar oeddynt, ond yr oedd crefydd lond eu henaid. Carent y capel a'r eglwys yn ddiffuant. Er yn hollol anllythrennog, deallent berthynas yr enaid â'r hanfodion tragwyddol. Cai'r Beibl le amlwg yn y cartref, pe na bai ond bwthyn bach to-gwellt a llwyn o hen-wr ger y drws a charreg wen wrth ei ochr.

Beth Ddaw Ohonynt?

Dyma gwestiwn a ddaw i feddyliau, os na ddaw o wefusau y rhan fwyaf o dadau a mamau.

Rhai blynyddoedd yn ôl ysgrifennodd David Kirkwood, yr aelod seneddol dros Dumbarton y pryd hwnnw, erthygl ddiddorol i'r *Daily Express*, a chyhoeddwyd hi'n bamffledyn bychan wedi hynny gan Gymdeithas y Gobeithlu yn Llundain.

Parkhead, pentref ryw bedair milltir tu allan i Glasgow, oedd cartref Mr. Kirkwood yn ystod ei blentyndod a'i lencyndod. Gerllaw, yr oedd gwaith haearn mawr Beardmore, gweithwyr oedd y mwyafrif o'r trigolion ynghyd a chynifer weddol o fasnachwyr, a swyddogion a phobl y 'dosbarth canol' mewn gwahanol alwedigaethau. Ai'r plant i'r un ysgol, ond tueddai plant y dosbarth canol i gadw ar wahan i blant y gweithwyr.

Wedi ymadael a'r ysgol ymunodd deuddeg o fechgyn 'y dosbarth canol' yn gymdeithas, a'u galw eu hunain yn "Fechgyn Llawen." Eu hamcan oedd cael 'amser da' a 'gweld bywyd.' Treulient eu hwyrnosau yn Glasgow, a dychwelyd adref yn feddw. Ond byr fu tymor eu 'hamser da.' Yn ôl Mr. Kirkwood dyma eu hanes :—

(1) Mab i oruchwyliwr dros berchenogion tai,—cyflawnodd hunan-laddiad yn ddeg ar hugain oed.

(2) Mab i reolydd masnach,—priododd yn wyth-ar-hugain, ac ymhen dwy flynedd cafwyd ef yn farw wedi torri ei wddf.

(3) Mab i fasnachwr,—torrodd ei wddf ei hun, mewn ystabl, yn un-ar-ddeg ar hugain oed.

(4) Brawd i rhif 3,—yn bump-ar-hugain oed, priododd ferch ieuanc er mwyn cael y swm o £250; yna diflannodd ac ni welwyd mohono wedyn.

(5) Mab i siopwr,—bu farw mewn gwallgofdy yn 30 oed.

(6) Mab i siopwr,—fe'i boddodd ei hun yn afon Clyde yn chwech-ar-hugain oed.

(7) Mab i siopwr,—yfodd wenwyn marwol yn ddeuddeg-ar-hugain oed.

(8) Mab i farsiandwr,—gwnaeth ddrwg, ac i ddianc rhag cosb, ffodd dros y môr.

(9) Mab i siopwr,—yn bymtheg-ar-hugain oed, neidiodd o fur pont i afon Clyde, a boddodd.

(10) Mab i werthwr glo,—yn un-ar-bymtheg-ar-hugain oed cyflawnodd hunan-laddiad.

(11) Mab i oruchwyliwr ystordy,—torrodd ei wddf ei hun, mewn hotel yn Glasgow, yn bymtheg-ar-hugain oed.

Un o'r deuddeg yn unig a fu byw heibio'r un-ar-bymtheg-ar-hugain.

Ar yr un pryd ffurfiodd deuddeg bach arall gymdeithas ar linellau hollol wahanol, sef byw yn sobr, mynychu ysgolion nos, a chyfarfodydd diwylliant. Bu i'r deuddeg fyw i oedran teg, yn barchus ac yn llwyddiannus yn ystyr orau'r gair.

Y mae'r gwirionedd, weithiau yn anos i'w gredu nag anwiredd ; ond ni cheisiodd neb wrthbrofi tystiolaeth Mr. Kirkwood.

GWYLIWR.

PE BAWN YR HYN NAD YDWYF.

(*Efelychiad. Tôn* : *Bristol* 636).

PE bawn i'n fwyalchen, a byw yn y llwyn,
Fe'i gwnawn y Baradwys bereiddiaf ei swyn ;
Perorwn, chwibanwn, a chanwn o hyd
I droi yn llawenydd drallodion y byd.

Pe bawn i yn wennol dros foroedd ymhell,
Yn fuan hedfanwn i fro lawer gwell,
Ac yno gwnawn nythu yn llawen a llon
A magu fy nghywion yn glyd dan fy mron.

Pe bawn i yn angel, a chanu uwch ben,
Disgleiriwn fel seren siriolaf y nen,
A phopeth hyfrydol a theilwng o glod
Ni wnawn yn fwy hyfryd oherwydd fy mod.

Er nad wyf nac angel na 'deryn y coed,
Mi ganaf y gorau glybuwyd erioed ;
Mi chwarddaf, a charaf, ymroddaf fel cawr
I wneud pawb yn ddedwydd bob munud ac awr.

Ilford. DEWI HIRADDUG.

Terfyn y Rhyfel.

Crynhodeb o araith y PARCHEDIG LEWIS WILLIAMS, Rhydygwin a Chiliau Aeron, yng Nghyfarfod Blynyddol Cynghrair y Gwragedd yng Nghapel y Groes ; Hydref 27, 1945.

SAFAF ger eich bron mewn ufudd-dod i'ch cais i ddatgan eich diolchgarwch fod y rhyfel wedi dod i derfyn.

Dywed rhai y bydd i ni anghofio'r rhyfel diwethaf yn fuan, ac anghofio'r milwyr yn fuan, fel y gwnaed wedi'r rhyfel cyn y diwethaf. Addawyd sicrhau i'r bechgyn a fu'n ymladd "a land fit for heroes to live in." Ni chawsant hynny. Cawsant eu hanghofio. Credaf na fydd i hyn ddigwydd ar ôl y rhyfel diwethaf.

Yr oedd rhyfel 1914—1919 ym mhell oddiwrthym. Nid ofnasom am ddiogelwch ein bywydau fel y gwnaethom yn ystod y rhyfel diwethaf. Daeth y rhyfel yn agosach atom ac, yn ôl pob hanes, buom yn ymyl cael ein gorchfygu. Pe digwyddai hynny, rhy anodd dychmygu i ba gyflwr truenus y darostyngid ni. Oblegid hynny, y mae ein diolchgarwch yn un dwfn ac, mi gredaf, yn un parhaol.

Da gennyf mai datgan eich *diolchgarwch* am derfyn y rhyfel yw'r testun a roddasoch i mi. Cofia rhai ohonoch mai datgan eu *llawenydd* yr oedd pobl am fod y rhyfel cyn y diwethaf wedi terfynu. Felly y dathlwyd yr amgylchiad, drwy lawenhau. Gan rai cariwyd y llawenydd hwnnw yn rhy bell : amlygwyd ef mewn pethau nad oeddynt yn gydweddol â'r teimlad a ddylai fod ym mhawb ar y pryd. Mewn llawer man gwnaeth y llawenydd galonnau drylliog tadau a mamau a gollodd anwyliaid yn y rhyfel yn fwy briw. Dysgwyd y wers, a bu'r Llywodraeth yn galw arnom am ddathlu'r fuddugoliaeth ddiweddar mewn cyfarfodydd diolchgarwch. Da gennyf mai dyma'ch teimlad chwithau, aelodau Cynghrair y Gwragedd.

Gwir eich bod yn llawenhau. Y mae llawenydd a diolchgarwch bron a bod yn gyfystyr. Pa bryd bynnag yr ydym yn ddiolchgar, yr ydym hefyd yn llawen. Gwell gennyf ddweud mai diolchgar yr ydym, am fod yr ysbryd diolchgar yn cadw ein llawenydd rhag mynd yn beth anghydweddol â theimladau llawer ar ôl y rhyfel.

Paham yr ydym yn ddiolchgar ? Am fwy nag un rheswm. Diolchwn fod y rhyfel wedi dod i derfyn oblegid ei fod yn beth camweddus a barbaraidd. Dywedir i'n gwlad ni fynd i'r rhyfel i amddiffyn gwlad fechan a oedd yn cael cam. Ond beth oedd yr achos fod y wlad honno yn cael cam ? Y gelyn a fynnai wneud yn eiddo ei hun wlad na pherthynai iddo—er mwyn ei ddyrchafu a'i lesoli ei hun. Hunangais yw peth felly. Dyna yw gwreiddyn pob drwg. Dyna yw achos rhyfel. Egwyddor Cristnogaeth yw nad

ydyw dyn yn byw iddo'i hunan. Ac ni chwyd y byd byth o'r sefyllfa y mae ynddi heddiw, sefyllfa sydd yn gwneud rhyfel yn bosibl, ac nid â yn ei flaen i gyfeiriad cariad brawdol a goddefgarwch ac uniondeb hyd nes y caiff ysbryd Cristnogaeth ei dderbyn a'i arfer ym mywyd dynion. Yr ydym yn ddiolchgar fod y rhyfel wedi dod i derfyn am fod rhyfel yn beth camweddus a barbaraidd.

Diolchwn am derfyn y rhyfel am fod rhyfel yn achos i fywydau gael eu colli. Y mae pob plentyn yn cael ei fagu'n annwyl iawn. Mynwesir gobeithion uchel amdano. Y mae diystyrru'r teimlad annwyl sydd gan dad a mam at eu plant a dinistrio'u gobeithion amdanynt—a hynny o achos barbareiddiwch a hunanoldeb rhyw bobl—yn groes i drefn Duw ac yn ddiystyrrwch o'i fwriad ar gyfer ei blant. Y mae rhyfel yn gwneud gwlad yn dlawd. Tlodi mwyaf gwlad yw bod yn dlawd mewn dynion da. Y mae rhai o'n bechgyn gorau ni, bechgyn a gafodd addysg dda ac a gymhwyswyd at sefyllfaoedd a fyddai'n rhoi iddynt gyfle i fod o wasanaeth mawr i'w gwlad, wedi gorfod aberthu eu bywydau. Oblegid hynny y mae ein gwlad wedi ei gwneud yn dlawd.

Eto yr ydym yn ddiolchgar am fod triniaeth wael y carcharorion rhyfel ar ben. Mewn hanes ni fu dim mor greulon erioed na'r driniaeth a gafodd llawer o'r carcharorion mewn rhai gwersylloedd, yn enwedig yn y Dwyrain Pell. Darllenasom am y concentration camp yn Buchenwald yn yr Almaen. Uwchben y fynedfa i'r camp hwn y mae'r geiriau mewn llythrennau tanbaid, "Fy ngwlad, yn iawn neu yn gam,"—y gelyn yn ystyried ei wlad ym mlaenaf ac yn darostwng ei wrthwynebwyr i ddioddefiadau na chlywodd neb o'r blaen am eu bath mewn creulonder er mwyn gorchfygu a'i ddyrchafu ei hun.

Gellir nodi llawer achos arall dros fod yn ddiolchgar fod y rhyfel wedi terfynu. Un ohonynt—y mae rhyfel yn difa adnoddau a ellid eu defnyddio i ddibenion da, adnoddau a fyddai'n gwella'r amgylchiadau ym mhob gwlad a sicrhau breiniau gwerthfawr i ddyn a fyddai'n dwyn mwy o hyfrydwch a melyster i'w fywyd.

Beth am y dyfodol? Yr oedd problemau mawr ac anodd ynglyn â dwyn y rhyfel ymlaen. Bu Churchill a Roosevelt a Stalin yn cyfarfod a'i gilydd droeon i ystyried y problemau hyn. Bydd problemau mawr eto. Credaf fod arweinyddion y gwledydd yn bwriadu gwneud eu gorau. Hoffais araith gyntaf Mr. Truman wedi iddo ddilyn Mr. Roosevelt fel Arlywydd yr Unol Daleithiau. Dywedodd ei fod yn mynd i anghofio'r gorffennol ac edrych ymlaen at ddyfodol gwell. Safwn heddiw bron yn yr unfan ag y safai Moses gynt ar fynydd Nebo. Dewisodd Duw Moses yn arweinydd plant Israel allan o'u caethiwed yn yr Aifft, lle y gorthrymwyd hwynt gan Pharao, brenin yr Aifft. Addawodd Duw wlad Canan yn etifeddiaeth iddynt. Wedi cyrraedd mynydd Nebo dywedodd Duw wrth Moses mai hyd y fan honno y cawsai ef arwain y genedl.

Oddiyno yr oedd gwlad yr addewid yn y golwg. Ond yr oedd Moses yn rhy hên i arwain y genedl ym mhellach. Yr oedd angen am ddyn ieuengach i arwain y genedl i feddiannu'r wlad. Josua oedd y dyn hwnnw.

Yn y fan yna y mae rhai ohonom ni heddiw—yng ngolwg gwlad yr addewid. Gwelaf rai ohonoch fel finnau yn ymylu ar fod yn hen. Efallai na chawn ni fynd i mewn i'r wlad, dim ond ei gweld o bell. Bodlonodd Moses i hynny, a chalonogodd Josua i fynd ymlaen â'r gwaith. Hyn yr wyf am ei ddweud wrthych chwi sydd wedi gadael tymor ieuenctid, oni chawn fynd i mewn i'r wlad, peidiwn â digalonni'r bobl ieuainc sydd a'u blynyddoedd o'u blaen.

Perygl llawer yn y dyddiau hyn yw digalonni o berthynas i'r dyfodol. Gwelsom lawer o bethau'n methu. Bu ymgais ar ôl ymgais i ddwyn amser gwell oddiamgylch. Un ohonynt oedd Cynghrair y Cenhedloedd. Aeth yn fethiant. A pherygl hen bobl yw dweud wrth bobl ieuainc yr oes mai methu â wnaeth pob ymgais yn y gorffennol, a thebyg mai felly y bydd eto'n y dyfodol.

Dymunaf i ni beidio â chymryd yr agwedd yna. Gall dweud peth felly wneud drwg mawr, a digalonni pobl yr oes i ymdrechu. Credaf ein bod wyneb yn wyneb ag amser pryd y bydd i gamre breision gael eu cymryd i gyfeiriad bywyd a fydd yn llawer rhagorach na dim a wyddom hyd yn hyn. Na osodwn un rhwystr ar ffordd ein pobl ieuainc i freuddwydio breuddwydion a gweld gweledigaethau, a boed i'r gweledigaethau hynny eu hysbrydoli i ddiystyrru'r anawsterau a mynd rhagddynt i greu'r ddaear newydd lle y bydd cyfiawnder yn cartrefu.

Ym Mehefin 1940 cwympodd Ffrainc, ac aeth ei llywiawdwyr mewn undeb â'r gelyn. Aeth Mr. Churchill i Tours i weld â'i lygad ei hun sut yr oedd pethau. Gwelodd fod Ffrainc dan ddylanwad y gelyn. Galwodd yntau aelodau'r Cabinet ynghŷd. Dywedodd wrthynt fel yr oedd pethau—yn ddu ; ac yr oedd yn ddu y pryd hwnnw. Dywedodd ein bod yn gorfod wynebu'r Almaen a'r Eidal ar ein pennau ein hunain. Wedi munud o ddistawrwydd, a phawb yn arswydo wrth feddwl am y sefyllfa, dywedodd Mr. Churchill, "I find it very inspiring." Y sefyllfa ddu, anodd yn ei ysbrydoli i ymdrech fwy ! Ysbrydolodd agwedd Mr. Churchill ei gyd-swyddogion, ac yn nerth yr ysbrydiaeth gwnaed pethau mawrion. Achubwyd ni rhag mynd dan draed y gelyn. Dyna'r agwedd a enillodd y rhyfel, a phe cymrid yr agwedd hon yn yr heddwch, credaf y bydd yr amser gwell yn agos, pryd y bydd i'r anialwch flodeuo fel y rhosyn a'r diffeithwch fel gardd yr Arglwydd.

Credaf fod ein diolchgarwch yn ddwfn. Os felly, fe ddaw i'r golwg yn eich cyfarfodydd. Gan bob adran y mae ei rhaglen, a honno yn cynnwys y gwaith am y tymor. Bydd daioni yn dod o'r gwaith hwnnw. Ond gall eich cymdeithas a'ch gilydd wneud daioni arall. Gall fod yn foddion i greu cyfeillgarwch a theimladau

da rhyngoch a'ch gilydd. Gall ychwanegu at fesur yr ewyllys da sydd yn y byd. Cynnydd mewn ewyllys da yn unig a all orchfygu teimladau drwg sy'n achosi pob anghydfod. Cynnydd mewn ewyllys da yn unig, a all ddiffodd ysbryd rhyfel a dod â heddwch i deyrnasau o fôr i fôr. Gobeithio yr edrych pob adran ar ei gwaith yn y golau hwn, ac y teimla pob aelod ei rwymedigaeth i fod yn ffyddlon i'r cyfarfodydd, gan ystyried fod y fraint fawr o gael cyfarfod â'ch gilydd mewn tawelwch, heb ofn yr un gelyn, yn rhwymo pob un ohonoch i fod yn ddiolchgar a chydnabod yr aberth a wnaethpwyd gan rywrai cyn dwyn y rhyfel i derfyn.

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A.

Bydd y darllenydd craff yn ddiamau wedi sylwi erbyn hyn mai dim ond yn ystod tymhorau'r Coleg y cynhelid ein gwasanaethau ar y dechrau, a hynny am y rheswm mai myfyrwyr oedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynychai'r addoliad, a'u bod hwythau wrth gwrs yn mynd adref dros bob gwyliau. O gofio am y myfyrwyr a oedd gennym yma yr amser hwnnw tueddir fi i'w cymharu â'r myfyrwyr Undodaidd sydd wedi bod yn y Coleg yma y blynyddoedd diwethaf hyn. Y pryd hynny, fel y dywedwyd eisoes, 'roedd yma nifer dda o fyfyrwyr Undodaidd a'r rheini bron yn ddieithriad yn llawn sêl a brwdfrydedd dros yr achos da, eithr yn bresennol ac er ys rhai blynyddoedd bellach nid oes ond ychydig o Undodiaid proffesedig yn y Coleg, a'r rhan fwyaf o'r rhai hynny heb ddangos na sel na brwdfrydedd dros eu ffydd. Beth yw'r rheswm am hyn, tybed?

Bu'r gwasanaethau'r tymor hwn eto—tymor Hydref 1902—yn llwyddiannus iawn ar y cyfan. Rhif y rhai a fu yn bresennol yn yr un cwrdd ar ddeg oedd cant wyth deg a phedwar, y rhif mwyaf mewn un cwrdd pedwar ar hugain a'r rhif lleiaf deg. Yn ystod y tymor digwyddodd tri o bethau sydd, mi dybiaf, yn deilwng i gael eu croniclo yma. Yn y lle cyntaf, tua diwedd mis Hydref 1902, bu farw'r hen Broffesor David Lewis Evans mewn gwth o oedran a thraddodwyd ei bregeth goffa gan y diweddar Barch. T. Arthur Thomas, Llandysul, ar y nawfed o Dachwedd i'r gynulleidfa fechan. Yn yr ail le, dechreuwyd dosbarth Beiblaidd tua hanner y tymor i astudio yr efengyl yn ôl Marc gyda chynorthwy llyfr y Parch. H. S. Solly ar yr efengyl hon. Ac yn y trydydd lle, mabwysiadwyd yr *Essex Hall Hymnal* (*Revised*) fel ein llyfr emynau yn lle'r llyfryn *Hymns for Special Services* a fu'n gwneud y tro hyd yn hyn.

Dechreuwyd gwasanaethau tymor y Grawys ar Sul, yr unfed-ar-ddeg o Ionor, 1903, a'r tymor hwn eto fe'u cynhaliwyd ar un Sul ar

ddeg fel y tymor cynt, gyda'r unig wahaniaeth i ddau wasanaeth gael eu cynnal un Sul, sef y cyntaf o Fawrth, pan bregethodd y Parch. Ddr. W. Tudor Jones, Abertawe. Hwn oedd y tro cyntaf inni gael dau wasanaeth ar unrhyw Sul. Yn dilyn wele restr o'r pregethwyr am y tymor a'r Suliau y gwasanaethasant :

Sunday, January 11th—Rev. E. E. Jenkins, late Manchester College, Oxford ; Sunday, January 18th—Mr. J. Park Davies, B.A., Manchester College, Oxford ; Sunday, January 25th—Rev. G. Eyre Evans ; Sunday, February 1st—Rev. Lewis Williams, Ciliau (Communion) ; Sunday, February 8th—Rev. John Howard, Tamworth ; Sunday, February 15th—Mr. D. J. Davies, B.A., U.C.W. ; Sunday, February 22nd—Rev. G. Eyre Evans ; Sunday, March 1st, 11 a.m. and 6.30 p.m.—Rev. W. Tudor Jones, F.R.G.S., Swansea (Communion) ; Sunday, March 8th—Mr. D. J. Davies, B.A., U.C.W. ; Sunday, March 15th—Mr. J. G. Morris, U.C.W. ; Sunday, March 22nd—Mr. J. Park Davies, B.A.

10.15—11 a.m. : Bible Class. ALL HEARTILY WELCOMED.

Credaf y bydd y rhan fwyaf o'n darllenwyr yn adnabod y pregethwyr uchod fwy neu lai oddieithr y Parch. John Howard, Tamworth, neu os nad yn eu hadnabod yn bersonol, o leiaf yn gwybod rhywbeth amdanynt. Hen ŵr wedi ymddeol o'r weinidogaeth Undodaidd oedd y Parch. John Howard ac yn byw ar y pryd yn Tamworth tua chanol Lloegr. A chyfrif y ddau wasanaeth ar Sul, y cyntaf o Fawrth, cawsom ddeuddeg gwasanaeth y tymor hwn. Rhif y rhai a fu yn bresennol ynddynt oedd dau cant a daw. I hysbysebu ymweliad y Parch. Ddr. W. Tudor Jones â ni argraffwyd pump-ar-hugain o furlenni, a thynnodd y rheini ynghyd â bri y pregethwr gynulleidfaoedd mwy na'r cyffredin i'w glywed—tua deg ar hugain mwy neu lai ymhob un o'r ddau wasanaeth.

Mewn cyfarfod o'r pwyllgor ar ôl y gwasanaeth fore Sul, 15 Mawrth, penderfynwyd gwneud casgliad tuag at chwarelwyr Penrhyn a oedd ar y pryd mewn cyni ac hefyd i chwilio am ystafell arall—yn y New Market Hall—i gynnal ein gwasanaethau.

Dr. Martineau—Ein Dyled Iddo.

Gan y Parchedig DAVID EVANS, Cwmiago.

CANRIF nodedig oedd y ganrif ddiwethaf, ar gyfrif y dynion enwog a fu byw yn ei chwrs—dynion enwog mewn ystyr feddyliol, dynion enwog hefyd ar gyfrif eu cymeriadau disglair. Perthynent i bob adran o'r Eglwys Gristionogol, amryw ohonynt tu allan i ffiniau Cristionogaeth. I'r mudiad Undodaidd y

perthynai Dr. Martineau. Eglwyswr—uchel-eglwyswr—oedd Mr. Gladstone. Eglwyswr oedd Tennyson—un o feirdd enwocaf, nid y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn unig, eithr pob canrif. Hawdd y gellid enwi enwogion perthynol i adrannau eraill o'r Eglwys Gristionogol, yn ogystal ag enwogion heb fawr (os dim) cydymdeimlad ag unrhyw ffurf ar Gristionogaeth.

Onid ymylu ar y rhyfygu a wna pob ymgais i gyfyngu dynion o'r math hyn tu mewn i derfynau plaid ac enwad? Hoffaf feddwl am Gladstone, nid fel Uchel-Eglwyswr, fel yr oedd, eithr fel Cristion o'r radd uchaf. Hoffaf feddwl am Tennyson fel pêr-ganiedydd y byd Cristionogol yn gyfan. Gellid dywedyd yr unpeth am Gymry enwog, megis, Dr. Edwards, y Bala, Proffeswr Morgan, Caerfyrddin, a llu eraill. Pan ddaw enw Proffeswr Morgan i'm côf, nid fel Annibynnwr y meddyliaf amdano agos cymaint ag fel boneddwr Cristionogol. Oedd Annibynnwr; eithr yr oedd yn Gristion o safon ryfeddol o uchel. Yn yr un gole yr hoffaf feddwl am Dr. Martineau—fel Cristion. Oedd Undodwr; yn awyrgylch Undodiaeth y'i dygpwyd i fyny; parhaodd yn Undodwr hyd ei ddiwedd. Nid yr un gangen o'r Eglwys Gristionogol ond ymhlith Undodiaid y cai ryddid i draethu ei neges y diolchir amdani gan a brofodd ei gwerth.

Bu fyw mewn adeg pan oedd ymosodiadau ar Gristionogaeth yn eu hanterth—ymosodiadau, yn ymddangosiadol, a beryglai'i bodolaeth. Ymosodid ar bob agwedd ohoni—y Beibl, a ddyry inni hanes ei dechrau; y credoau a ffurfiwyd ynghwrs y canrifoedd ar ei henw; bodolaeth Duw; anfarwoldeb yr enaid; cyfrifoldeb dyn. Bu raid i bob agwedd o Gristionogaeth fynd trwy dân beirniadaethau o bob math, naill ai i'w puro neu i'w dinistrio. Oeddynt ymosodiadau mor nerthol a chyfrwys, yn fynych, fel y perid i a'u darllenai dybied bod y gair olaf wedi'i draethu, ac y cleddid Cristionogaeth (pob ffurf ohoni) ar fyr amser.

Yn yr ymgais i wrthweithio dylanwadau'r ymosodiadau hyn, ac adfer Cristionogaeth—Cristionogaeth yr Athro, nid y Gristionogaeth a elwir felly—i'w gorsedd fel crefydd ysbrydol, addas i lwyr fodloni dyheadau gorau natur dyn, chwaraewyd rhan amlwg gan Dr. Martineau. Yn sicr, nid gwasanaeth i'w dibrisio oedd hyn.

Un o anhepgorion bywyd Cristionogol iach yn ôl Martineau, yw rhyddid i chwilio am y gwir; ac un o ddyletswyddau blaenaf y Cristion yw dilyn y gwir a amlygir iddo gan ei ymchwil yn ffyddlon a diofn. Elfen amlwg ei fywyd ef oedd y cyntaf; a thrwy'r holl fywyd bu'n amddiffynnwr pybyr ohoni. I'r gwir, fel y'i gwelid ganddo, bu'n ffyddlon. O sylwi ar ei safle feddyliol ar wahanol adegau o'i yrfa, daw'n amlwg y cynnydd rhyfeddol a'i nodwedda, cynnydd a ymyla ar fod yn chwyldro. Oedd Undodwr ar ddechrau'i yrfa; oedd Undodwr ar ei therfyn; eithr yr oedd byd o wahaniaeth rhwng Undodiaeth ei ieuenctid ac Undodiaeth ei henaint. O

ddilyn ei yrfa, symud o un safle i safle arall a welir. Tynnu i lawr yr amserol a'r digwyddiadol a fu un rhan o'i waith. Nid gorchwyl llwyr gydnaws â'i anian orau oedd hyn ; gorchwyl ydoedd, yn hytrach, a wthiwyd arno gan ddylanwadau y tu allan iddo. Ei amddiffyn o'r arhosol a'r anghyfnewidiol oedd y gorchwyl a garai.

Er bod Martineau yn Undodwr—defnyddiai iaith â min arni i gondemnio Undodwr a gywilyddiai arddel ei Undodiaeth ; "llwfryn a snêc" y galwai'r cyfryw—eto, mor angherddol oedd ei gariad at ryddid, fel y casâi bob ymgais i secteiddo'r mudiad Undodaidd. Aml dro y bu'n gwrthdystio yn erbyn pob gogwydd i'r cyfeiriad hwn. Onid oedd iawn ? Dylanwad deifiol ei effeithiau yw'r dylanwad a dardd o'r ysbryd sectol—yr ysbryd cul, rhagfarnllyd, a bair i a'i mynweso dybied bod pob gwir a phob daioni wedi'u cyfyngu tu mewn i gaerau enwad. Yr un mor ddeifiol a fyddai'r ysbryd sectol pes ceid tu mewn i'r mudiad Undodaidd.

Ydyw enw Martineau wybyddused ag y bu ? Ni wn ; onid yw felly, colled ydyw—ie, colled na ellir ei iawn fesur.

Nodion y Lladmerydd.

Ysgolfeistri Undodaidd.

Bydd yn bleser mawr i lawer o Undodiaid Cymru a Lloegr ddarllen llyfryn bychan y Parch. D. Evans, Cwmiago, ar 'Undodiaid Cymru fel Ysgolfeistri.' Yn Saesneg yr ysgrifennodd Mr. Evans, er mwyn i Undodiaid Lloegr wybod am lafur daionus eu brodyr, yr ochr yma i Glawdd Offa, ym myd Addysg.

Ceir hanesion byrion o yrfeydd trigain o ysgolfeistri,—gweinidogion i gyd ond dau neu dri.

Yn ei draethawd rhagarweiniol, dywed yr awdur ei bod yn angenrheidiol i weinidogion Undodaidd, hyd yn ddiweddar, geisio am ffordd i ennill ychydig o arian yn herwydd bychandra eu cyflogau, a chan fod pob gweinidog Undodaidd yn credu mewn addysg ac yn gwybod yr angen mawr amdani yn y wlad, peth naturiol iddynt oedd sefydlu ysgolion gramadeg. Bu'r ysgolion hynny o werth amhrisiadwy i bobl ieuainc ardaloedd gwledig na allent fforddio i fynd i'r Ysgolion ffasiynol neu i'r Colegau,—dyna enghraifft o dlodi un dosbarth yn troi'n fendith i ddosbarth arall o dlodion.

Y 'Tyst.'

Yn y '*Tyst*' am Ragfyr 27ain, wrth daflu cipdrem dros y gwahanol gylchgronau am flwyddyn, dywed y golygydd, y Parch. Dyfnallt Owen, am ein misolyn ni, "Ceidw'r Ymofynnydd yn ffyddlon i'w

draddodiad am sylwedd ei ysgrifau." Heb un gronyn o ragrith, gallwn ninnau ddwyn tystiolaeth uchel i erthyglau grymus a galluog y '*Tyst*.' Bydd yn dda gan bawb o'n darllenwyr sydd yn gyfarwydd a gwaith Dyfnallt, gael ar ddeall ei fod ef ar wellhâd o'r afiechyd trwm a'i goddiweddodd ychydig wythnosau yn ôl.

Will Thorne.

Ni wyddom a berthynai Will Thorne i unrhyw enwad crefyddol ai peidio : nad beth am hynny, yr oedd ef yn un a wynebodd fynyddoedd o rwystrau a'u gorthrechu, ac fe ddylai byr-hanes o'i yrfa fod yn ysbrydiaeth i fechgyn ieuainc yr oes sydd yn codi.

Ganwyd ef mewn tlodi yn Birmingham : a bu ei dad farw drwy ddamwain, pan nad oedd William ei blentyn hynaf onid chwech oed, a phedwar eraill iau na William i'w magu. Bu raid i'r fam weddw weithio'n galed iawn i gael deupen y llinyn ynghyd ; ei gwaith oedd gwnïo ' bachau a llygad ' (*hooks and eyes*) ar gardiau dros y gwneuthurwyr. Wrth gwrs, bu raid i'r teulu ' fynd ar y plwyf,' a'r weddw a phump o blant yn cael pedwar swllt a phedair torth yr wythnos o help.

Ni chafodd Wil awr o ysgol yn blentyn, canys danfonwyd ef yn chwech oed i weithio mewn gweithfa raffau, am ddeuddeg awr bob dydd, ac am hanner coron yr wythnos. Wedi peth amser aeth i weithio mewn gwaith metel, lle'r oedd yr hur ychydig yn well, ar ôl hynny gweithiodd waith *navvy*, ac yn olaf mewn gweithfa nwy (gas-work).

Nid yw ryfedd i'w waed ferwi gan ddigllonedd cyfiawn wrth ystyried y driniaeth galed a gai gweithwyr y dyddiau hynny. Penderfynodd ffurfio Undeb o weithwyr y gwaith nwy, ac ymladdodd gyda dewrder di-ildio dros gael gwell telerau iddynt. Cyn hir sefydlodd Undeb helaethach o weithwyr dinesig a chyffredin, a bu'n ysgrifennydd i'r Undeb hwnnw am 45 o flynyddoedd.

Etholwyd ef yn Aelod Seneddol dros Plaistow (West Ham) yn 1906 a chadwodd ei sedd yn ddifwlch hyd ei ymddeoliad cyn yr etholiad diwethaf.

Bu fyw yn Nwyrain Llundain drwy gydol y bomio a dywedai fod yn rhaid cael rhywun mwy na Hitler i'w symud ef o'i dŷ.

Er na chafodd awr o ysgol erioed, dysgodd lawer, a diwylliodd ei feddwl yn ystod ei oriau hamddenol prin. Bu farw ar yr ail o Ionawr yn ddyn parchus ac yn 88 oed.

Sarnicol.

Da gennyf weld bod yr Ymofynnydd wedi talu teyrnged i goffadwriaeth Sarnicol.

Cawsom rai o'i epigramau gafaelgar. Un o'i ddarnau a'm gogleisiodd i yn fawr yw ei benillion tarawiadol ar ôl Caradog Evans :

CARADOG WRTH DDRWS Y NEFOEDD.

"Pwy wyt ti ?" medd Pedr, a'r drws yn cil-agor ;
"Caradog o Lundain, Nofelydd,—a rhagor."

"Paham 'rwyt ti'n galw ?" "'Rwyf am gael trig oesol
Lle ni bydd un Cymro a'i gastiau anfoesol."

"Lle ni bydd un Cymro ? mae yma filiynau,
Tyrd, gwrando am ennyd ar sŵn eu telynau."

"Adweini di'r cywair ?" "Fy mhobl emynyddol
Mae hi'n Gapel Seion fan yma'n dragwyddol."

"'Rwyt ti'n un ohonynt !" "Gwir, ond pe trigiannwn
Ynghanol y gethern âi'r nefoedd yn annwn."

A throes ar ei sawdl heb un gair ymhellach
A ffoi dan dalgwympo i lawr strim-stram-strellach.

A chlybu'r nefolion bell atsain daranllyd
Sŵn croeso Caradog i'w loches frwmstanllyd.

O Patrymau Gwlad (Llyfrau Pawb).

GWNEUD EIN RHAN YN FFYDDLON.

Gallaf wneud fy meddwl yn fwy eglur drwy adrodd hanesyn perthynol i fywyd Syr Michael Costa, y cyfansoddwr a'r arweinydd enwog. Un tro fel yr oedd yn addysgu ei seindorf ar gyfer rhyw achlysur neilltuol yn Llundain, gwelid ef yn gwrando a'i holl egni, ac yn ddisymwth rhoddodd amnaid i bawb roddi i fyny chwarae. Yna gofynodd ble'r oedd y *flageolet*, y mwyaf distadl o'r holl offerynau cerdd. Yr oedd ei glust diwylliedig wedi sylwi fod yr offeryn hwnnw yn absennol ; a theimlai na fyddai y datganiad yn berffaith hebddo. Er mwyn chware y dernyn mewn modd teilwng yr oedd yn angenrheidiol cael gwasanaeth yr holl offerynau. Felly y mae mewn perthynas i fywyd yr Eglwys Gristnogol. Tybia rhai nad yw o bwys pa un a wnant eu gorau ai peidio. Ystyriant, efallai, na fyddai eu gwasanaeth hwy werth ei gyfrif. Ond yng ngolwg Awdur ein bywyd mae pob gwasanaeth o'r pwys mwyaf. Ni chyfrif Ef yr un gwaith da yn ddibwys. Drwy gyflawni ein dyledswyddau yn ffyddlon, yr ydym yn dyfod yn gydweithwyr a Duw er hyrwyddo dyfodiad Ei deyrnas.

E. Ceredig Jones.

Priodasau.

Ionor 19, yn Eglwys All Saints, Pontardawe, ALFRED GEORGE COATH, Edmonton (Sergt. yn yr R.A.F.), a EIRLYS MAI THOMAS, merch Mr. a Mrs. D. J. Thomas, The Spa, Pontardawe, y Parchedig W. Gwyn Hopkin yn gweinyddu. Yr oedd y Parchedig J. D. Jones yno hefyd.

Ionor 19, yng Nghapel y Graig, Trebanos, GEORGE GOODWIN, Southborough (gynt o'r Royal Navy), a BEATRICE MARY EDWARDS, merch Mr. a Mrs. Benjamin Edwards, Heol y Llwynau, Trebanos, y Parchedig J. D. Jones yn gweinyddu.

Marwgofion.

Drwy farwolaeth SARAH ANNE DAVIES, yr Alma, Llandysul collodd y cylch un o'i dinasyddion goreu a'r enwad Undodaidd un o'i blant galluocaf. Gwaddolwyd hi â galluoedd meddyliol disglair, a bu ei dylanwad cymdeithasol yn Llandysul ynglŷn â phob achos da yn amhrisiadwy i'r ardal. Huawdl ei llafar ac ymarferol mewn gweithred hi a wnaeth lawer o ddaioni yn ei dydd. Wedi cyrraedd yr oedran teg o 79 mlwydd bu farw yn Bristol dan ofal caredig ei brawd a'i chwaer-yng-nghyfraith—y Parch. Tyssil Davies a Mrs. Davies. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr i'r ddau. Claddwyd lludw yr ymadawedig chwaer ym mynwent Pantydefaid, dydd Gwener, Ionor 11.

Ionor 23, bu farw Mrs. SARAH DAVIES, Clarence, Cwrtnewydd, yn 81 mlwydd oed. Adwaenid hi fel Mrs. Davies, y Wern, tyddyn bychan yn nyffryn Cledlyn, lle y rhoddodd ei gorau i ddyledswyddau ei chartref a'i theulu. Dynes nodedig ydoedd am ei hawddgarwch, ac er iddi gael ei chystuddio yn hir, dioddefodd yn amyneddgar hyd y diwedd. Mawr ydoedd serch ei phlant tuag ati, a gweinyddodd ei hunig ferch yn dyner iawn arni yn ystod y blynyddoedd. Gosodwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Capel y Bryn y dydd Llun dilynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan ei gweinidog, y Parch. S. E. Bowen, yn y capel gan y Parchn. Lewis Williams a S. Morgan, Ficer y Plwy, ac ar lan y bedd gan y Parch. S. G. Thomas, Capel Seion. Gadawodd bump mab ac un ferch mewn hiraeth ar ei hôl. Yr oedd ei phriod wedi ei blaenu ers blynyddoedd.

Ionor 30, wedi clafychu'n raddol er canol Mehefin, JOHN DAVIES, Glasbant, Talgarreg, yn 74 mlwydd oed. Treuliodd ran helaeth o'i oes yn fferm Pantglas, Talgarreg, ond rhyw un flynedd ar ddeg yn ôl, oherwydd nychtod ei briod, prynodd Glasbant, yng nghanol pentref Talgarreg, ac aeth yno i fyw. Dyn tawel, diddig, diddan y gwelsom ni ef. Gan fod Pantglas dipyn ar gornel, nid yn aml yr ymwelem â'r lle, unwaith, weithiau ddwywaith y flwyddyn, ond wedi cyrraedd yno rhaid oedd gwneud prynhawn ohoni. Rhyngddo ef a'i briod a'i thad—Deio Pantglas—prynhawn dymunol iawn fyddai hwnnw. Cai pob gorchwyl o waith ei droi o'r neilltu, a ninnau'n pedwar yn eistedd o gylch y tân a chylch y ford i drin a thrafod pethau, ac yn ddieithriad cai'r achos yng Nghapel y Fadfa gryn sylw. Er ei fod yn un o ddiaconiaid y gynulleidfa, ni chymerai ran amlwg yn y capel. Gwell ganddo wneud a allai yn ddiffws a didwrw. Er hynny yr oedd i'r achos le cynnes iawn yn ei fynwes. Wrth ei golli, collodd y gynulleidfa aelod ffyddlon iawn a gwerthfawr. Wedi iddo ef a'r teulu symud i Dalgarreg, gwelem ef yn amlach, a chaem hanner awr yn ei gwmni'n bur fynych, ac ni flinwyd ar ei gwmni erioed. Yr oedd ei siarad i gyd yn ddiwenwyn, ei storiau'n ddiniwed, a'i chwerthin yn hollol naturiol. Gadawodd fab mewn unigedd i

wylo ei golli. Y mae ein cydymdeimlad gydag ef, ac y mae ei golled yn fawr, canys tebycach oeddynt i ddau frawd nag i dad a mab. Gadawodd hefyd ddwy chwaer, brawd, a nifer fawr o gyfeillion. Y dydd Llun dilynol daearwyd ei weddillion ym mynwent Capel y Fadfa, mynwent y bu ef flwyddyn ar ôl blwyddyn yn un o'r cwmni'n ei glanhau. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. H. Ponsford a Dewi Emrys, ac yn y Capel a'r fynwent gan y Parch. E. O. Jenkins.

Yn ddisymwth bu farw y Cynghorwr T. G. VAUGHAN, Treforus, ar Dachwedd 27, 1945, yn 57 mlwydd oed. Etholwyd ef ar Gyngor Tref Abertawe yn 1933, a daliodd swyddi pwysig ynglyn â'r Cyngor hwnnw. Ymunodd ag Eglwys yr Undodiaid yn Abertawe yn nyddiau'r gwr didwyll a chywir hwnnw, y Parchedig R. J. Hall, ac ef ydoedd trysorydd yr eglwys ers blynyddoedd. Gwr cadarn ydoedd a diysgog. Bu'n Wrthwynebwr Cydwybodol yn ystod rhyfel 1914—1918, a pherchid ef am ei argyhoeddiadau diwyro. Yr oedd ei ddidwylledd yn mynnu parch. Ceisiwyd cael gwared ohono gan berchnogion y gwaith am nad oeddynt yn hoff o'i syniadau na'i ddylanwad na'i weithgarwch yn y dref, ond safodd ei gydweithwyr fel craig o'i ochr a gwrthod gweithio hyd nes iddo gael ei waith yn ôl. Gwelwyd yn ei fywyd nodweddion gorau gweriniaeth. Dyn hunan-ddiwylliedig, gweithiwr yn y gwaith alcam, yr oedd yn ysgrifennydd adran ei Undeb. Yn ei oriau segur yn unig gwnaeth lond oes gyfan dyn o ddaioni. Brwydrodd dros iawnderau gweithwyr yn erbyn y Cyngor Llafur yr oedd ef yn aelod ohono. Brwydrodd dros iawnderau Gwrthwynebwyr Cydwybodol yn erbyn eu cydweithwyr. Nid yn yfwr nac yn smociwr, pleidiodd dros gael "cwrw Nadolig" i ddeiliaid y wyrcws. Bydd ei le'n wag yn ei gartref, yn ei eglwys, yn y Mudiad Undodaidd ym Morgannwg, yn y dref. Ni bu gan ddyn erioed lai i edifarhau amdano : ni bu neb deilyngach o'r Deyrnas Nefol y gwnaeth ef gymaint dros ei sylweddoli yma ar y ddaear. Cydymdeimlir â'i weddw a'r plant. Cefnder iddo yw'r Parchedig Sidney Evans, B.A., Casllwchwr, cenhadwr ym Mryniau Casia, a ddaeth yn enwog yn Niwygiad 1904. Yr oedd ef yn yr anglad. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Basil Viney a J. D. Jones. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus yn ymyl Llangyfelach.

Nodion yr Eglwysi.

CYFARFODYDD Y GYMDEITHAS.—Cynhelir yng Ngalltyplaca ar ddyddiau Mawrth a Mercher, Ebrill 16 a 17. Ceir y manylion yn y rhifyn nesaf.

CRONFA'R YMOFYNNYDD.—Wele restr ychwanegol o dderbyniadau tuag at y Gronfa. Capel y Fadfa, £1 ; Ciliau Aeron, £1 ; Miss Jenkins, Trecefel, £1 ; Mr. David Davies, Bridgend, £1 ; Rhydygwin, £1 ; Capel y Groes, £1/18/6 ; Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., £1 ; Brondeifi, £1. Gweler rhifyn Medi am y cyfraniadau blaenorol. Cyfanswm am 1945, £14/7/0.—D. Jones, *Trysorydd.*

CAPEL Y BRYN.—Y mae'r Ysgol Sul yn ddyledus unwaith eto i Gymdeithas y Chwiorydd am wledd a noson lawen. Yr oedd Capel Bryn bach yn orlawn ar Ionor 4. Yn dilyn y wledd cafwyd rhaglen amrywiol a chystadleuol, ac amser yn unig a roddodd derfyn ar yr hwyl. Cadeiriwyd gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn fedrus gan Mr. David Evans, Melrose Park. Estynnodd y chwiorydd rodd o £17/10/0 i gronfa milwyr y cylch.

CAPEL Y FADFA.—Cynhaliwyd noson lawen yr Ysgol Sul ar Ionor 11, pryd y daeth Ilond y Neuadd o bobl ynghyd. Gofalodd y chwiorydd, yn ôl eu harfer, am ddigonedd o bethau blasus i'w bwyta. Yn ystod yr hwyr gwobrwywyd y plant am gadw yr ysgol—pump wedi ei chadw yn ddifwlch. Mr. E. Lloyd Jones oedd Tad y Nadolig. Manteisiwyd ar y cyfle i anrhegu Mrs. Denton (gynt Miss May Evans, Gwaralltfardre) ar achlysur ei phriodas. Cyflwynwyd

yr anrheg iddi gan Miss Thomas, Green Grove, fel arwydd ein bod yn gwerthfawrogi ei gwasanaeth ffyddlawn gyda'r organ am flynyddoedd cyn iddi adael y cartref am Lundain. Rhannwyd hefyd y swm yn agos i £60 rhwng saith o hen ddisgyblion yr Ysgol Sul a fu ac y sydd yn y lluoedd arfog. Trefnwyd ac arweiniwyd y cyfarfod gan Mr. Evan Davies, Maespwll a Mr. Inver Davies, Gwardafolog—yr arolygwyr am y llynedd ac eleni, a gwnaeth y ddau yn ddeheuig iawn.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Highgate Hill, am 6 o'r gloch. Pleser mawr ydoedd clywed y Parchedig D. Jacob Dafis, B.A. yn ein gwasanaethu ym mis ola'r flwyddyn. Rhoddodd i ni bregeth hwylus iawn ar ddyledswydd y Cristion i gadw'r drws yn agored fel y byddo i'w ddaioni fod yn fendith i'r byd, ac fel y byddo yntau o dan ddylanwadau o'r tu allan, hyn fel na byddo byd ac eglwys yn ddau beth ar wahan. Edrychwn ymlaen at groesawu Mr. a Mrs. Dafis i'n plith eto'n fuan. Diolch yn fawr i'r Parch. T. L. Jones am gymryd y gwasanaeth ar y Sul cyntaf yn 1946. Galwodd ar y Cristionogion fod yn ddewr yn eu hymdrechion—rhaid i ni yn 1946 i gael ail-afael ar ysbryd anturiaethus y Cristionogion bore os ydyw'r efengyl i fod yn nerth creadigol ym myd heddwch anesmwyth y bom atomig. Balch iawn gweled yn y cwrdd ddau o'n haelodau a fu mor ffyddlon yn ystod y rhyfel, sef y morwr David Davies a Miss Hannah Morgan (yn awr o Gaerdydd). Blin iawn oedd gennym glywed am afiechyd Mrs. Lloyd Jones,—gobeithiwn iddi adferiad buan. Ar ôl y gwasanaeth cynhaliwyd cwrdd eglwys a phasiwyd y penderfyniadau pwysig a ganlyn :

(1) Ein bod yn cynnal ein gwasanaethau *o'r Sul cyntaf ym Mis Mawrth ymlaen yn Eglwys Highgate.*

(2) Ein bod ar ôl symud i Highgate *yn cynnal ein gwasanaethau am 6 o'r gloch ddwy waith bob mis, sef ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul ym mhob mis.*

(3) Ein bod yn gofyn i'r Parch. T. L. Jones gymryd y gwasanaethau ar y trydydd Sul ym mhob mis os cydsynia Eglwys Leytonstone, ac hefyd yn gofyn iddo ymweld a'r aelodau yn ystod y flwyddyn.

Gobeithio y cawn ffyddlondeb a chefnogaeth drwyadl yr holl aelodau yn yr antur newydd yma. Trefn y dyfodol : Mis Mawrth, y Sul cyntaf, y Parch. E. O. Jenkins ; Mis Mawrth, y trydydd Sul, y Parch. T. L. Jones ; Mis Ebrill, y Sul cyntaf, y Parch. T. J. Jones (Hindley) ; Mis Ebrill, y trydydd Sul, y Parch. T. L. Jones.

ABERYSTWYTH.—Prynhawn a hwyr Sadwrn, Rhagfyr 1, cawsom sosial i roddi croeso i'r Cyn-brifathro a Mrs. W. S. Jones yn ôl, os nad i Aberystwyth, o leiaf i'r ardal gyfagos, ac hefyd i groesawu Capten Emlyn Jones, Brynteg, Heol Caradog, i'n mysg. Dieithr-ddyn oedd ef y pryd hynny i'r rhan fwyaf ohonom, ond y mae ei briod a'i ferch yn adnabyddus i ni i gyd ac yn ffyddlon iawn gyda'r achos. Cafwyd amser difyr iawn wrth y bwrdd tê ac ychydig eiriau o groeso cynnes i'r tri gan y westeiwraig, Mrs. J. E. Jones, y cadeirydd, Mr. A. T. Grindley, ac eraill. Cymrwyd mantais hefyd o'i amgylchiad gan y gwragedd i adfywio'r gangen leol o Gynghrair y Gwragedd. Yn anffodus, yr ydym ar golli un o'n haelodau ffyddlon ym mherson Miss Eirlys Mai Thomas a ddaeth yma ryw dair blynedd yn ôl o Drebanos. Fe aelodau cynulleidfa Gellionnen a'r Graig i gyd, pan ddônt i Aberystwyth, naill ai ar wyliau neu i aros, mae Eirlys wedi bod yn aelod ffyddlon yma, a bydd yn golled fawr i ni i'w cholli. Ni allem adael iddi fynd oddi yma heb ddangos ein bod yn gwerthfawrogi ei ffyddlondeb, felly ar ôl y gwasanaeth arferol nos Sul, Rhagfyr 16, cafwyd cwrdd byr i'w anrhegu ac i ddymuno Duw yn rhwydd iddi yn ei bywyd priodasol cyfagos.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.